# Y CYNGOR 13/05/10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, Stephen Churchman, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Lasen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Peter Read, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pugh Roberts, Liz Saville Roberts, Trefor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams, a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams, Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi R Jones (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Gruffydd Wyn Morris, (Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol), Geraint Owen (Rheolwr Cleientiaid Eiddo ac Adeiladwaith), ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr E T Dogan, Christopher Hughes, Arwel Pierce a Dafydd Roberts

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd T G Ellis

Dilynwyd y weddi gydag anerchiad gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Cadeirydd 2009/10.

**2 CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd W Tudor Owen yn gadeirydd am 2010/2011.

Llofnododd y Cynghorydd W Tudor Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2010/11.

**3 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd John Gwilym Jones yn is-gadeirydd am 2010/11

Llofnododd y Cynghorydd John Gwilym Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2010/11.

**4 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2010 fel rhai cywir.

**5 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitem Cynllun Lwfansau Aelodau oedd gerbron y Cyngor.

(i) Datganodd yr holl aelodau oedd yn bresennol fuddiant personol yn yr eitem "Cynllun Lwfansau Aelodau". Cynghorwyd yr aelodau nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Gan hynny, ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio ar yr eitem.

(ii) Datganodd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones ddiddordeb yn yr eitem ynglŷn â "Sioe Frenhinol Cymru" oherwydd ei fod yn aelod etholedig o Bwyllgor Ymgynghorol y Sir.

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Ysgol Newydd yr Hendre" oherwydd y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd W Tudor Owen oherwydd ei fod ei fod ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol;
- Y Cynghorydd W Roy Owen oherwydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethol yr ysgol, ac wedi bod ynghlwm â'r cynllun ers y dechrau.

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iv) Datganodd y Pennaeth Strategol a Gwella diddordeb yn yr eitem "Ysgol Newydd yr Hendre" oherwydd bod ei wraig yn athrawes yn yr ysgol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**6 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Nodwyd bod Gwilym Euros Roberts wedi ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Gwynedd, ac y bydd isetholiad yn ward Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog ar 15 Gorffennaf.

(ii) Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

Y Cynghorydd Siân Gwenllïan ar golli ei thad yng nghyfraith yn ddiweddar;

Teulu'r Athro Eric Sunderland - Cyn Is-ganghellor Prifysgol Bangor, a chyn Arglwydd Raglaw Gwynedd a fu farw mis Mawrth;

Teulu Llew ap Gwent a laddwyd wrth ddringo yng Nghwm Idwal ddydd Sadwrn diwethaf. Roedd Llew yn Gydlynydd Partneriaeth Penllyn ac wedi cyd-weithio llawer gyda'r Cyngor;

Yna, cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a gwahoddwyd y cyfarfod i sefyll fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(iii) Llongyfarchwyd y canlynol:-

Hywel Williams A.S. ac Elfyn Llwyd A.S. ar eu hail-ethol i San Steffan;

Y Cynghorydd Huw Edwards ar ei ethol yn Faer Tref Caernarfon am y trydydd tro;

Merch y Cynghorydd Dilwyn Lloyd ar ennill cystadleuaeth gyda'r "iâr orau" yn Sioe Nefyn;

Y Cynghorydd Alun Wyn Evans ar ennill Cystadleuaeth Cornchwiglen Cymru 2010, sef gwobr cadwraeth genedlaethol;

Clwb Pêl Droed Bangor ar ennill Cwpan Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol

(iv) Yn dilyn trosglwyddiad stoc tai'r Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, nodwyd y bydd Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG yn rhoi cyflwyniad i'r Cyngor yn syth ar ôl y cyfarfod, a gwahoddwyd yr holl aelodau i fynychu'r cyflwyniad.

**7 MATER BRYS**

Nid oedd rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Gwen Griffith ynglŷn â dileu grant Cymorth wedi ei gynnwys ar raglen y Cyngor, ond cytunodd y cadeirydd ei gynnwys o dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd bod y wybodaeth wedi dod i law ar ôl dosbarthu'r rhaglen. Byddai plant Gwynedd ar eu colled os fydd yr arian yn cael ei arall gyfeirio, ac roedd angen rhoi sylw buan i'r mater.

**8 CWESTIYNAU**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Yn dilyn y datganiad gan rai swyddogion o'r Cyngor y buasai arbedion ariannol yn deillio o wneud i ffwrdd a'r Pwyllgorau Ardal, pa dystiolaeth neu ystadegau sydd i brofi hyn?"

**Ateb gan y Cynghorydd J R Jones**

"Diolch am y cwestiwn

Yn y trafodaethau ar y Strategaeth Arbedion yn ystod 2009, nodwyd y byddai newidiadau i'r Pwyllgorau Cynllunio i greu un Pwyllgor Cynllunio Sirol yn lle'r tri Phwyllgor Cynllunio Ardal a'r Pwyllgor Cynllunio Canolog presennol yn dod ag arbediad o £71,761 (ffurflen arbedion D a C1). Mae'r arbediad yma i'w briodoli i'r ffaith y bydd nifer y cyfarfodydd yn cael ei haneru.

Mae'r arbediad yn cynnwys yr elfennau canlynol :-

| | |
|---|---|
| Lwfansau cadeiryddion, costau teithio aelodau a swyddogion, argraffu a phostio rhaglenni. | £15,737 |
| Hanner swydd Swyddog Pwyllgor | £16,248 |
| Swydd Cyfieithydd | £39,776 |
| Cyfanswm: | £71,761 |

Yn ogystal, mae swm o £33,669 o arbedion yn y Gwasanaeth Cynllunio. O beidio â newid y drefn bwyllgorau, bydd yr arbediad yma yn mynd yn doriad yn y Gwasanaeth.

Hefyd, bydd trefn un pwyllgor yn rhyddhau 33 o oriau gwaith gweinyddol a 133 o oriau gwaith cyfreithwyr a all gael ei arall gyfeirio.

Mae manylion llawn o'r dadansoddiad yn yr atodiad a ddosbarthwyd i'r aelodau"

**Cwestiwn Atodol**

"Adroddwyd gan gynghorydd, o Gyngor Powys nad oedd y Cyngor wedi arbed unrhyw arian trwy symud i un pwyllgor cynllunio canolog. Sut felly oedd Cyngor Gwynedd yn amcangyfrif arbediad o £71,761. Hefyd sut oedd arbediad ar swyddi cadeiryddion gan fod cadeiryddion ardal yn derbyn lwfans beth bynnag?

**Ateb y Swyddog Monitro**

Eglurodd y Swyddog Monitro bod y ffigurau wedi eu hatodi i'r ateb oedd wedi ei ddosbarthu i'r aelodau. Ymhellach eglurodd bod y Panel Annibynnol ar Lwfansau wedi penderfynu mai'r unig bwyllgorau fydd â hawl i dderbyn lwfans Cadeirydd fydd y Bwrdd, pwyllgorau craffu, pensiynau, trwyddedu a chynllunio, ac na thelir lwfans i gadeirydd pwyllgor ardal mwyach.

**9 GWYLIAU YSGOL 2010/11**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg ar ganlyniad ei ymholiadau, yn dilyn penderfyniad y Cyngor i swyddogion addysg ail ymweld â thrafodaethau er mwyn gweithredu ar ddymuniad y Cyngor i alluogi rhieni a phlant y sir y fynychu Sioe Amaethyddol Llanelwedd yn 2011. Hefyd i geisio gwyliau cyffredin i Gymru gyfan.

Ymhelaethodd y Pennaeth ar ganlyniad y trafodaethau gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, a'r ail ymgynghori gyda'r amrywiol grwpiau.

Pwysleisiodd y byddai'n broblemus i ysgolion ddod o hyd i dri diwrnod ysgol i gymryd lle'r dyddiau ym mis Gorffennaf. Cyfeiriodd at ddatrysiad lleol posib, sef, trwy gyfuniad o adennill dyddiad trwy gynnal sesiynau oriau gwyll ar gyfer HMS, rhieni i ddefnyddio'u hawl i ofyn am ddyddiadau gwyliau ychwanegol dan drefniadau amgen, ac ysgolion i ystyried trefnu tripiau i'r sioe. Yn ystod trafodaethau gyda phenaethiaid, eglurodd ei fod wedi nodi y gallasai ysgol unigol gyflwyno cais i'r Awdurdod i amrywio patrwm y gwyliau blynyddol. Gellid cefnogi cais o'r fath pe byddai'r ysgol a'r Corff Llywodraethu'n derbyn cyfrifoldeb am drefnu tri diwrnod ysgol yn lle'r dyddiau ym mis Gorffennaf.

Eglurodd ymhellach ei fod wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau'r Sioe yn y dyfodol , a'i bod yn debygol y bydd sefyllfa gyffelyb ymhen rhyw chwe blynedd, ond

gobeithir y bydd trefn gyffredin genedlaethol fydd yn parchu digwyddiadau cenedlaethol yn ei lle erbyn hynny.

(i) Gan gyfeirio at yr awgrymiadau ynglŷn â datrysiad lleol, cynigiodd yr Arweinydd Portffolio Addysg bod yr Awdurdod yn ymrwymo i gymeradwyo unrhyw gais gan ysgol unigol i ryddhau staff a disgyblion y Sir i fynychu'r Sioe Fawr yn 2011,ar yr amod eu bod yn derbyn cyfrifoldeb am drefnu tri diwrnod ysgol yn lle'r dyddiau ym mis Gorffennaf.

(ii) Eglurodd y Cynghorydd John Pugh Roberts, cynigydd y rhybudd gwreiddiol mai'r hen Sir Gaernarfon, sef rhan o Wynedd a rhan o sir Conwy fydd yn noddi Sioe Frenhinol Cymru yn 2011. Nododd bod ymdrechion ar draws y Sir i godi arian i hybu'r Sioe ac i geisio sicrhau gŵyl lewyrchus a chofiadwy, ac amherir ar lawer o drigolion Gwynedd os na fydd yr ysgolion yn cau tan 20 Gorffennaf.

Pwysleisiodd bod Sioe Llanelwedd y mwyaf o'i bath yn Ewrop, ac yn ffenestr siop ar gyfer y diwydiant amaethyddol yng Nghymru . Roedd yn bwysig i lawer o deuluoedd Gwynedd ac yn rhan bwysig o addysg a datblygiad plant a phobl ifanc y sir.

Cynigiodd welliant bod ysgolion Gwynedd, fel ysgolion eraill yng Nghanolbarth a De Cymru'n cau ddydd Gwener 16 Gorffennaf 2011

(iii) Trafodwyd y sefyllfa'n fanwl, a rhoddwyd cyfle helaeth i aelodau fynegi barn ar y mater.

Roedd yr holl aelodau'n gytûn bod angen sefydlu trefn gyffredin genedlaethol a bod y drefn honno'n parchu digwyddiadau cenedlaethol gan gynnwys Sioe Llanelwedd. Yn y cyfamser, roedd sawl aelod yn awyddus i geisio datrysiad lleol i'r sefyllfa trwy gyfuniad o drefniadau oedd wedi eu hamlinellu yn adroddiad y Pennaeth.

Mynegodd eraill bryder y byddai trefniadau lleol yn golygu bod rhai ysgolion gwledig yn methu ymdopi oherwydd diffyg staff, ac mai'r unig ffodd o ddatrys y sefyllfa oedd newid y dyddiadau a chau holl ysgolion y sir ar 16 Gorffennaf.

Pwysleisiodd eraill y byddai newid y dyddiadau yn hwyr yn y dydd yn creu problemau i ysgolion sydd wedi cynllunio ar sail y trefniadau presennol, a phwysleisiwyd bod datrysiad lleol ar gael.

Pleidleisiwyd a phasiwyd gwelliant bod ysgolion Gwynedd yn cau ddydd Gwener 16 Gorffennaf 2011.

**PENDERFYNWYD bod holl ysgolion Gwynedd yn cau ar 16 Gorffennaf 2011, yn lle 20 Gorffennaf, a dylid dod o hyd i dri diwrnod ysgol i gymryd lle'r dyddiadau.**

## 11 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Adroddwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau'n adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

Eglurwyd bod y Pwyllgor Cwynion a'r Is-bwyllgor Elusennau wedi eu diddymu erbyn hyn gyda'r canlyniad bod lleihad yn nifer y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor. Hefyd roedd nifer aelodau Grŵp Llais Gwynedd wedi lleihau gyda'r

canlyniad bod angen addasu dyraniad y seddau. Nodwyd bod y Grŵp Busnes wedi cytuno i'r dyraniad arfaethedig.

Yn ychwanegol eglurwyd na all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu na'r Pwyllgor Archwilio, a chytunodd y Grŵp Busnes i ddyrniad arfaethedig cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau'r prif bwyllgorau.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi a derbyn cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig canlynol y Cyngor :-**

| | | |
|---|---|---|
| **Plaid Cymru** | **35** | |
| **Annibynnol** | **18** | |
| **Llais Gwynedd** | **12** | |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **5** | |
| **Llafur** | **4** | |
| **Sedd Wag** | **1** | **1** |

**(ii) mabwysiadu'r dyraniad a amlinellir yn y tabl isod**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Prif Bwyllgor Craffu | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 8 | 4 | 3 | | |
| Pensiynau | 2 | 2 | Sedd wag | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Adnoddau | 6 | 2 | 2 | 1 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dynol | | | | | |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 6 | 2 | 2 | | 1 |
| Cydbwyllgor AAA | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |

**(iii) mabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau yn unol â'r tabl isod:-**

| | **Pwyllgor** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor<br>Council Board | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Prif Bwyllgor Craffu | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Annibynnol** |
| 3 | Plant a Phobl Ifanc | **Annibynnol** | **Llafur** |
| 4 | Amgylchedd | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Plaid Cymru** |
| 5 | Gofal | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 6 | Datblygu | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Archwilio | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** |
| 8 | Cynllunio Canolog | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 9 | Trwyddedu Canolog | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 10 | Pensiynau | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| 11 | Adnoddau Dynol | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 12 | Apelau Cyflogaeth | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 13 | Ardal Arfon | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 14 | Ardal Dwyfor | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Ardal Meirionnydd | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |

## 12 CYNLLUN LWFANSAU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar Gynllun Lwfansau Aelodau.

(i) Adroddwyd y cyhoeddwyd adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Lwfansau Aelodau ym mis Chwefror 2010, a bod rhaid i'r Cyngor ddiwygio'i gynllun lwfansau, er mwyn cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel.

Cyfeiriwyd at y materion allweddol, sef penderfyniad y Cyngor i beidio neilltuo arian ychwanegol ar gyfer lwfansau aelodau yng nghyllideb 2010/11; diddymu lwfans i is-gadeiryddion oddigerth am is-gadeirydd y Cyngor; cadw'r gwahaniaeth hanesyddol rhwng lwfansau cadeiryddion gwahanol bwyllgorau; mân ddiwygiadau ar gyfer hawlio lwfans Gofal; cynyddu lwfans aros yn Llundain a pharhau i ddynodi'r taliad fel "lwfans" yn hytrach na "chyflog".

Roedd arbediad o £20,448 yn y gyllideb, o ganlyniad i ddiddymu lwfansau is-gadeiryddion, ac argymhellodd y Prif Bwyllgor Craffu y dylid ail-gylchu'r arian er mwyn cau rhywfaint ar y bwlch sylweddol yn lwfansau aelodau'r Bwrdd. Hefyd, gan fod cryn fwlch rhwng lwfansau Gwynedd a'r uchafsymiau a argymhellir gan y Panel, a bwlch ariannol sylweddol yn y gyllideb, eglurwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu wedi argymell y dylid rhoi sylw i'r elfen hon wrth osod cyllideb 2011/12.

(ii) Mynegwyd anfodlonrwydd mawr gan sawl aelod am na thelir lwfans i gadeiryddion pwyllgorau ardal, a mynegwyd pryder y bydd y trefniadau newydd yn tanseilio statws y pwyllgorau ardal ac yn fygythiad i'w dyfodol. Hefyd roedd amryw'n anfodlon bod cadeiryddion pwyllgorau eraill yn colli lwfans yn ogystal.

Mynegwyd gwrthwynebiad pellach i benderfyniad y Panel Annibynnol i ddileu lwfansau is-gadeiryddion, gan bwysleisio bod rhai is-gadeiryddion yn gweithio'n hynod galed, a bod angen rhoi sylw pellach i'r mater

Eglurodd y Swyddog Monitro bod aelodau a swyddogion y Cyngor wedi cyflwyno sylwadau a datgan siomedigaeth wrth y Panel Annibynnol, ynglŷn â'r sefyllfa. Hefyd, cyflwynwyd sylwadau cyffelyb gan gynghorau eraill, ac anfonwyd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond nid oedd y Panel yn fodlon ail-ystyried y sefyllfa. Eglurodd ymhellach ei bod wedi ysgrifennu at y Panel eto ar gais y Prif Bwyllgor Craffu, ac addawodd ddosbarthu copi o'r ateb i'r aelodau pan fydd i law.

Pwysleisiodd y Pennaeth ymhellach nad oedd gan y Cyngor hawl i osod lwfansau oddi allan i'r categorïau a ddynodwyd gan y Panel, a bod rhaid cael Cynllun Lwfansau yn ei le ar gyfer talu aelodau yn 2010/11.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Lwfansau Aelodau ar gyfer 2010/11.**

## 13 DIWYGIO CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.

Adroddwyd bod angen diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau a'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn sgil penderfyniad y Cyngor i ddiddymu'r Pwyllgor Cwynion, Is-bwyllgor Elusennau a'r Is-bwyllgor Trethi Annomestig, ynghyd â diddymu'r Panel Adolygu Tenantiaeth Gyflwyniadol gan fod y stoc tai wedi trosglwyddo. Yn ogystal cyflwynwyd mân ychwanegiadau a diwygiadau i'r rhestr ddeddfwriaeth sydd wedi eu dirprwyo.

**PENDERFYNWYD derbyn y diwygiadau a mabwysiadu'r Cynllun dirprwyo i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau a'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion fel rhan o gyfansoddiad y cyngor.**

## 14 PENODI AELODAU WRTH GEFN AR GYFER PWYLLGORAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn egluro argymhellion a wnaed gan y Prif Bwyllgor Craffu mewn ymateb i rybudd o gynnig i'r Cyngor ynglŷn â chaniatáu i eilyddion gymryd lle aelod sefydlog sydd methu mynychu pwyllgor.

Nodwyd prif nodweddion trefn newydd o gael aelodau wrth gefn ar gyfer pwyllgorau.

Eglurwyd y byddai pob grŵp yn penodi un aelod wrth gefn ar gyfer pob pwyllgor y mae ganddynt aelodaeth ohono. Pwysleisiwyd bod rhaid i'r aelod sy'n methu bod yn bresennol roi gwybod i'r Cadeirydd bod eilydd yn dirprwyo iddo. Nodwyd mai'r aelodau wrth gefn fyddai'r unig rai gyda'r hawl i eilyddio.

Adroddwyd ymhellach ar reolau fyddai'n gysylltiedig â'r drefn, a nodwyd na fyddai'r Bwrdd na'r Pwyllgorau Ardal, yn cael eu cynnwys o fewn y drefn, a rhestrwyd pwyllgorau eraill na fyddai'n cael eu hystyried yn rhan ohoni.

Nododd aelod bod y rhybudd o gynnig gwreiddiol yn cyfeirio at gyfyngu gweithrediad y drefn eilyddion i amgylchiadau arbennig. Roedd yn anfodlon am nad oedd cyfeiriad at unrhyw gyfyngiad yn y Rheol Gweithdrefn Enghreifftiol, a chynigiodd y dylid caniatáu i eilyddion gymryd lle aelod sefydlog oherwydd salwch tymor hir neu brofedigaeth deuluol yn unig. Hefyd cynigiodd y dylid adolygu'r sefyllfa ymhen 6 mis (yn hytrach na 12 mis) gan gyfrif unrhyw gost ychwanegol.

Mewn ymateb, adroddodd Cadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu bod y pwyllgor craffu wedi trafod y sefyllfa'n ofalus ac wedi ystyried nifer o ffactorau'n drylwyr a threiddgar. Pwysleisiodd nad ar chwarae bach oedd y pwyllgor wedi dod i'w gasgliadau a gofynnodd i'r Cyngor dderbyn yr argymhellion y pwyllgor craffu yn eu crynswth, gan bwysleisio y bydd cyfle i graffu'r sefyllfa'n fanwl ymhen 12 mis.

Syrthiodd gwelliant i gyfyngu eilyddio mewn pwyllgorau i amgylchiadau arbennig, sef i salwch tymor hir a phrofedigaeth deuluol yn unig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu a mabwysiadu'r Rheol Weithdrefn Enghreifftiol.**

## 15 ADOLYGIAD O'R PWYLLGORAU CYNLLUNIO

(i) Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Pennaeth Rheoleiddio ar drefniadau neillog ar gyfer y pwyllgorau cynllunio.

Yn dilyn nifer o adroddiadau allanol ynglŷn â threfniadau'r Cyngor i wneud penderfyniadau cynllunio, adroddwyd bod y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi mynd ati i ystyried trefniadau neillog. Daeth y Fforwm i'r casgliad unfrydol y gellid

cymeradwyo model ar gyfer un pwyllgor cynllunio i'r sir i gymryd lle'r pwyllgorau cynllunio ardal a'r Pwyllgor Cynllunio Canolog presennol.

(ii) Adroddwyd ar fanteision ac anfanteision trefn newydd a rhestrwyd prif nodweddion y cynigion fel a ganlyn:-

- Un pwyllgor sirol o 15 aelod ar sail cydbwysedd gwleidyddol a chydbwysedd ardal (ond ni fyddai aelodau'r Bwrdd yn gymwys i wasanaethu ar y pwyllgor)
- Aelod(au) lleol i gael yr hawl i fynychu i gyflwyno dadleuon ar ran etholwyr
- Aelod(au) lleol i barhau i gael cyfeirio mater i bwyllgor (yn hytrach na chael penderfyniad dirprwyedig gan swyddog)
- Holl aelodau'r pwyllgor i dderbyn hyfforddiant cyn cael gweithredu arno
- Y pwyllgor i gyfarfod bob 3 wythnos (15 gwaith y flwyddyn)
- Lleoliad y pwyllgor i gylchdroi o gwmpas yr ardaloedd h.y. 5 cyfarfod yr un yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau, ond gyda rhagdybiaeth o blaid penderfynu ar gais yn lleol
- Penderfyniadau croes i bolisi i gael eu gohirio am gyfnod "cnoi cil"
- Dim hawl i alw penderfyniadau i'r canol neu eu cyfeirio'n uwch

Pwysleisiwyd y gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor i sesiwn codi ymwybyddiaeth a chael cyflwyniad ar y drefn newydd a chyfle i ofyn cwestiynau. Hefyd trafodwyd y mater mewn manylder gan y Prif Bwyllgor Craffu a chymeradwywyd y cynigion oedd gerbron.

(iii) Adroddodd Cadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu, bod rhagdybiaeth yn y pwyllgor craffu y byddai pob cais yn cael ei drafod yn yr ardal sy'n lleol i'r cais hwnnw pan fo hynny'n ymarferol, ond nad oedd hynny'n amlwg yn yr adroddiad oedd gerbron. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig bod ceisiadau'n cael eu clywed yn lleol, boed ar gais ymgeisydd, aelod lleol neu wrthwynebydd, a nododd na fyddai'r broses yn golygu oedi hwy na 6 wythnos.

Eglurodd y Pennaeth bod y Model Arfaethedig yn nodi y gall ymgeiswyr neu aelod lleol wneud cais i ddal mater yn ôl yn lleol, ac os oedd y Rheolwr Cynllunio'n sylweddoli bod gwrthwynebiad lleol sylweddol, gall ddal y cais yn ôl yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd a'r aelod lleol.

(iv) Nododd aelod ei fod yn gefnogol iawn i'r trefniadau arfaethedig, ac yn cytuno ei bod yn bwysig bod y cyhoedd a'r aelod lleol yn cael siarad yn y pwyllgor. Fodd bynnag eglurodd ei fod yn pryderu y gallai arwain at gyfarfodydd maith, a gofynnwyd i swyddogion roi sylw i gyfyngu ar yr amser siarad.

Pwysleisiodd aelod arall bod un fframwaith cynllunio yn ei lle ar gyfer Gwynedd gyfan erbyn hyn, a bod rhaid symud i drefniant un pwyllgor cynllunio sirol a sicrhau penderfyniadau cyson ar draws y sir.

Nododd ymhellach ei fod o'r farn y bydd gwell atebolrwydd lleol wrth i aelod lleol gael datgan barn ac ymgyrchu yn ei gymuned o blaid neu yn erbyn cais, a chyflwyno dadleuon ar ran yr etholwyr yn y pwyllgor cynllunio.

Hefyd roedd yr aelod o'r farn y bydd arbenigedd y pwyllgor newydd yn fodd i edrych yn fwy strategol ar anghenion y sir o safbwynt yr economi, yr amgylchedd ac addysg, ac yn arwain at benderfyniadau fydd yn datblygu a gwella'r Sir.

Nododd aelod arall ei fod yn croesawu'r trefniadau arfaethedig, ond roedd o'r farn y bydd angen adolygu'r sefyllfa ymhen cyfnod penodol, a chynigiodd bod Pwyllgor Craffu

Amgylchedd yn cynnal adolygiad ymhen 12 mis o'i gychwyn ynglŷn â pha mor effeithiol oedd y trefniadau newydd ac ystyried newidiadau pellach yn ôl yr angen.

(iii) Roedd rhaid aelodau'n wrthwynebus iawn i'r cynigion oedd gerbron.

Mynegwyd pryder bod y trefniadau newydd yn gwanio democratiaeth ac yn chwalu adnabyddiaeth ac atebolrwydd lleol, gan y byddai'n gwneud i ffwrdd â'r gyfundrefn bresennol, lle mae pob un cynghorydd mewn ardal benodol yn ymdrin â cheisiadau cynllunio.

Hefyd mynegwyd consyrn y bydd y trefniadau arfaethedig yn gwanychu'r pwyllgorau ardal.

Roedd aelodau eraill yn amheus a fydd y drefn newydd yn arwain at arbedion mewn gwirionedd.

Adroddodd cadeirydd pwyllgor ardal ei bod dan yr argraff bod cefnogaeth unfrydol i'r trefniadau gan gadeiryddion ac is-gadeiryddion, a bod sylwadau rhai ohonynt yn erbyn y cynigion oedd gerbron yn ei thristau'n fawr. Pwysleisiodd bod y drefn bresennol yn fregus. Atgoffodd y Cyngor o hawl y Cynulliad i dynnu'r hawl i benderfynu ar geisiadau cynllunio oddi ar y Cyngor os oedd ei benderfyniadau'n anghyson.

Gyda chaniatâd y cynigydd a'r eilydd cytunwyd i ychwanegu at y cynnig bod Pwyllgor Craffu Amgylchedd yn cynnal adolygiad ymhen 12 mis o'i gychwyn ynglŷn â pha mor effeithiol oedd y trefniadau newydd ac ystyried newidiadau pellach yn ôl yr angen.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod:-

**O blaid: (49)** Y Cynghorwyr Bob Anderson, Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pugh Roberts, Liz Saville Roberts, Trefor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Guto Rhys Thomas, Ann Williams, J.W.Williams ac R H Wyn Williams.

**Yn erbyn: (11)** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Simon Glyn, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Aeron M Jones, P.G.Lasen, Keith Marshall, Llinos Merks, Peter Read, Owain Williams a Robert J Wright.

**Atal pleidlais: (6)** Y Cynghorwyr Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Eric Merfyn Jones, W Roy Owen, Gethin Glyn Williams a Gwilym Williams

Diolchwyd i swyddogion ac aelodau am eu gwaith trylwyr i ddod â'r cynigion gerbron a nodwyd y dylid efelychu'r prosesau ymgynghorol a democrataidd wrth ystyried materion corfforaethol eraill.

**PENDERFYNWYD**
**(i) cymeradwyo argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu a mabwysiadu trefniant un pwyllgor cynllunio sirol i'r Cyngor yn unol â manylion yr atodiadau ac**

**(ii) bod Pwyllgor Craffu Amgylchedd yn cynnal adolygiad ymhen 12 mis o'i gychwyn ynglŷn â pha mor effeithiol oedd y trefniadau newydd ac ystyried newidiadau pellach yn ôl yr angen.**

**16 CYNLLUN TAIR BLYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar adolygiad y Cynllun Tair Blynedd sef blwyddyn olaf y Cynllun presennol (2008-2011).

(i) Adroddwyd bod agen adolygu'r Cynllun yn achlysurol er mwyn bod yn effro i faterion sy'n newid er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb yn briodol i newidiadau.

Nodwyd bod gwaith cynhwysol wedi mynd rhagddo i adnabod ffactorau allweddol oedd angen eu hystyried wrth adolygu'r Cynllun, a bod ystyriaeth wedi ei roi i'r angen i ychwanegu rhaglenni i'r Cynllun Tair Blynedd fyddai'n tywys y Cyngor tuag at drawsnewid.

Gwahoddwyd y Cyngor i ystyried sylwadau'r Prif Bwyllgor Craffu ar y cynllun drafft sy'n cynnwys 6 Rhaglen Strategol sef: *Trawsffurfio'r Cyngor, Economi ac Adfywio, Amgylchedd ac Isadeiledd, Plant a Phobl Ifanc, Gwerth am Arian a Phobl Fregus,* a chymeradwyo'r cynllun terfynol

(ii) Manylodd yr Arweinydd ar y broses adolygu ac ymhelaethodd y Pennaeth Strategol a Gwella ar y trefniadau. Pwysleisiodd bod y Cynllun Tair Blynedd yn allweddol bwysig ac yn rhoi arweiniad a pherchnogaeth ar y blaenoriaethau gwella.

Eglurodd y bwriedir adeiladu ar y cydweithio a'r cyd-gynhyrchu wrth gynllunio Cynllun Tair Blynedd 2011-14.

(iv) Ystyriwyd y cynllun a sylwadau'r Prif Bwyllgor Craffu.

Adroddodd Aelod Arweiniol Plant ei bod yn croesawu'n fawr fod maes rhiantu wedi ei ychwanegu fel cynllun ychwanegol o dan y maes Ymyrraeth Gynnar.

Mewn ymateb i ymholiad eglurwyd bod swyddogion yn ystyried trefniadau i'r Cyngor ddarparu morgais ar gyfer pobl ifanc lleol sy'n prynu tŷ o dan gytundeb 106 ond eglurwyd bod y mater yn gymhleth iawn.

Mynegodd aelod bryder bod gwaith yn cael ei roi i gwmnïau dros y ffin a bod y cwmnïau'n dod â'u gweithwyr gyda hwy. Hefyd roedd yn pryderu am nad oedd cyfleon i bobl ifanc  di-waith gael mynediad at brofiad gwaith.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod rhaid gweithredu o fewn gyfundrefn gaeth caffael a phrosesau tendro. Pwysleisiodd bod y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod cwmnïau lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael, a bod y gwaith yn cael ei becynnu'n rhesymol i'w galluogi i dendro am y gwaith. Hefyd roedd trefniadau ar waith i ddatblygu a gweithredu rhaglen o brosiectau i gynnig profiadau gwaith i unigolion di-waith gan roi sylw arbennig i dargedu pobl ifanc.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo ail adolygiad y Cynllun Tair Blynedd ar gyfer Blwyddyn 3 ( 2010-11)**

## 18 YSGOL NEWYDD YR HENDRE

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Gwenan Parry, Pennaeth Gofal Cwsmer ynglŷn â'r diffyg yn y gyllideb ar gyfer datblygu ysgol newydd ar gyfer ardal yr Hendre, Caernarfon.

Adroddwyd gan Uwch Arweinydd Adnoddau bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus gyda chais am grant o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol y Cynulliad tuag at y gost o adeiladu ysgol i gymryd lle Ysgol yr Hendre sydd mewn cyflwr gwael iawn ac yn rhy fychan i gwrdd ag anghenion nifer cynyddol o blant.

Eglurodd bod amodau'r grant yn mynnu bod rhaid gwario'n llawn y £4.3miliwm erbyn Mawrth. Pwysleisiwyd bod yr amserlen yn heriol iawn i gynllun mor fawr, ac y byddai amserlen arferol ar gyfer datblygiad  mor sylweddol oddeutu 3 blynedd.

Bellach roedd cynlluniau manwl wedi eu paratoi ac roedd y tîm technegol yn awgrymu fod cyfanswm cost y datblygiad yn debygol o fod oddeutu £9. 2miliwn, sef £2.2 miliwn yn uwch na'r cyllid sydd ar gael. Oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer gwario'r grant, nodwyd bod angen i'r Cyngor gytuno sut i ddiwallu'r diffyg os am sicrhau na chollir y grant o £4.2 miliwn.

Mewn ymateb i'w hymholiadau manylwyd ar y rhesymau dros y cynnydd sylweddol yn y costau, sef:-

- ni fu'n bosibl cael manylion llawn ynglŷn â'r costau gan mai tair wythnos yn unig a ganiatawyd ar gyfer darparu'r cais am grant;
- darganfod olion archeolegol mwy sylweddol na'r hyn sy'n arferol ar y safle datblygu;
- y gost o sicrhau mynediad addas i'r safle
- natur y safle – h.y. hir, cul a rhediad tir.

Pwysleisiwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i leihau'r costau. Os oedd y Cyngor am i'r datblygiad gael ei wireddu, eglurwyd mai'r unig opsiwn rhesymegol oedd  ceisio gwneud darpariaeth o fewn y Strategaeth Asedau Corfforaethol. 'Roedd angen i'r Cyngor benderfynu os oedd y cynllun yn ddigon o flaenoriaeth  i'w gynnwys yn y Strategaeth Asedau Corfforaethol gyda darpariaeth newydd yn cael ei wneud ar ei gyfer yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2011/12.

Eglurwyd y bydd angen ail-edrych ar y Strategaeth Asedau Corfforaethol yn ddiweddarach eleni, yn sgil y gostyngiad tebygol yn y dyraniad cyfalaf i'r Cyngor. Bryd hynny bydd angen ail flaenoriaethu felly gan gymryd ystyriaeth o'r diffyg cyffredinol oherwydd y sefyllfa o ran cyllid yn y sector gyhoeddus a'r diffyg ychwanegol fydd wedi ei greu wrth ymrwymo cyfalaf ar gyfer cynllun Ysgol yr Hendre .

Mynegodd aelod bryder dybryd ynglyn â'r mater ac awgrymodd y dylid cael archwiliad annibynnol i'r sefyllfa.

Roedd llawer o'r aelodau'n bryderus ynglŷn â'r cynnydd yn y costau, a'r diffyg sylweddol yn y gyllideb. Fodd bynnag roedd cytundeb cyffredinol bod rhaid bwrw ymlaen â'r cynllun rhag colli'r grant. Cyfeiriwyd at gyflwr gwael yr ysgol bresennol, a nodwyd y byddai rhaid i'r Cyngor ei hun ddarganfod swm sylweddol iawn ar gyfer adeiladu ysgol newydd yn fuan, os collir y grant.

Pwysleisiwyd bod angen ymchwilio'n drylwyr i'r prosesau i weld os oedd gwersi i'w dysgu ar lefel leol a chenedlaethol, a chynigiwyd bod y bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r pwyllgor craffu i ymchwilio'n fanwl i'r rhesymau dros y cynnydd yn y costau a hefyd i ystyried a fyddai wedi bod yn bosibl gweithredu'n wahanol er mwyn osgoi'r cynnydd yn y costau

**PENDERFYNWYD**

**(i) Gwneud darpariaeth oddi mewn i'r Strategaeth Asedau Corfforaethol ar gyfer goresgyn y diffyg yng nghyllideb datblygiad Ysgol Newydd yr Hendre ac yn cynnwys y swm fydd ei angen yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2011/12. Bydd yr union swm yn wybyddus unwaith y bydd y cytundeb adeiladu wedi ei gosod ond ar ei waethaf gallasai fod oddeutu £2.2 filiwn**

**(ii) Dwyn pwysau ar y Cynulliad i gynnig mwy o hyblygrwydd o ran amseriad gwario arian grant er mwyn osgoi'r math yma o sefyllfa yn y dyfodol.**

**(iii) Cefnogi argymhelliad y Grŵp Arweinyddiaeth i gomisiynu darn o waith i edrych os oes gwersi i'w dysgu o safbwynt trefniadau yn genedlaethol a lleol.**

**(iv) Cyfeirio'r mater i'r Prif Bwyllgor Craffu ymchwilio'n fanwl i'r rhesymau dros y cynnydd yn y costau a hefyd i ystyried a fyddai wedi bod yn bosibl gweithredu'n wahanol er mwyn osgoi'r cynnydd yn y costau**

**19 RHYBUDDION O GYNNIG**

(a) Adroddwyd, er gwybodaeth, bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2010, wedi penderfynu gohirio trafodaeth ar rybudd o gynnig y Cynghorydd Alwyn Gruffydd *sef "Bod y Cyngor hwn yn cyfyngu cyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio Canolog i drafod materion cynllunio sy'n berthnasol i Wynedd yn ei chyfanrwydd, megis chwarelu, mwyngloddio, llifogydd a'r diwydiant ynni ac yn y blaen, gan adael y Pwyllgorau Cynllunio Ardal i ymdrin â cheisiadau cynllunio perthnasol i'w hardaloedd ac yn atebol i'r Cyngor Llawn"* an fydd y Cyngor yn ystyried adroddiad y Gweithgor ar drefniadau ymdrin â cheisiadau cynllunio.

Oherwydd bod y Cyngor wedi penderfynu sefydlu un pwyllgor cynllunio sirol, noddodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ei fod yn dymuno tynnu yn ôl ei rybudd o gynnig.

**PENDERFYNWYD cytuno i dynnu'n ôl y rhybudd o gynnig ynglŷn â chyfyngu cyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio Canolog oherwydd bod y Cyngor wedi penderfynu sefydlu un pwyllgor cynllunio sirol.**

(b) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig brys canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Gwen Griffith o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Bod y Cyngor hwn yn ysgrifennu'n ffurfiol at Mr Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru i fynegi pryder sylweddol ynglŷn â bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu Cymorth***

***(Y Gronfa Plant a Theuluoedd) yn ei ffurf bresennol er mwyn sefydlu Cronfa Strategol i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Tlodi Plant Cenedlaethol newydd.***

***Er y croesawir ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant, byddai sefydlu'r Gronfa Strategol yn arwain at golled o £1,367,861 i Wynedd a byddai hyn, yn ei dro, yn cael effaith uniongyrchol ar nifer o fudiadau cyhoeddus a gwirfoddol sy'n ddibynnol ar gyllid Cymorth i ddarparu gwasanaethau a chynlluniau i rai o blant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf anghenus y Sir. Mae'r bwriad hefyd yn mynd yn groes i'r addewid a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i resymoli'r gyfundrefn grantiau drwy drosglwyddo grantiau disgresiynol (megis Cymorth) i setliad awdurdod lleol"***

Eglurodd yr aelod y bydd ymgynghori ar y mater yn fuan a bod angen gweithredu ar frys.

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu'r rhybudd o gynnig;**
**(ii) gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol weithredu ar y rhybudd o gynnig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.10 p.m.

______________________________

**CADEIRYDD**